17.06.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Cyfres sy'n rhoi bywyd newydd i hen gartrefi

Does unman yn debyg i adref ond mae'n braf iawn cael newid hefyd - ac mae cyfres newydd sbon ar S4C yn dod a'r ddau beth at ei gilydd yn **Hen Dŷ Newydd**.

Yn y gyfres hon mae chwe theulu ar draws Cymru wedi galw am gymorth i drawsnewid a gwella eu gofod gyda help tri dylunydd creadigol sef Gwyn Eiddior, dylunydd setiau ffilm a theledu; Mandy Watkins, dylunydd mewnol o Ynys Môn a Carwyn Lloyd Jones y saer creadigol sydd wedi ennill gwobrau am ei waith anhygoel.

O adnewyddu cegin *art deco* i greu hafan yn yr atig, bydd **Hen Dŷ Newydd** yn dathlu gallu tri chynllunydd creadigol i drawsnewid llefydd bach gydag uchelgais mawr.

Y bwriad bob tro bydd ysbrydoli a chyffroi unigolion a theuluoedd i fyw, gweithio a chwarae mewn ffordd gwbl newydd o fewn eu cartrefi. Prosiectau personol fydd y rhain i wella'r profiad o fyw tu mewn i'r pedair wal.

Bydd y tri chynllunydd yn cyfuno eu sgiliau ac yn camu i mewn i un cartref gwahanol bob wythnos.  Byddant yn gyfrifol am adnewyddu un ystafell neu ardal yr un - y gegin, lolfa, ystafell wely neu ofod yn yr ardd.

Bydd tair cyllideb wahanol ar gael i Gwyn, Mandy a Carwyn ar gyfer pob ystafell sef £1,000, £2,500 a £5,000.

Ond bydd rhaid iddynt gyd-weithio fel tîm er mwyn manteisio ar sgiliau gwahanol ei gilydd.

Meddai Gwyn: "Dwi'n ddylunydd sy' fel arfer yn gweithio ar gynyrchiadau teledu a ffilm, theatr a gwyliau. Y tro yma dwi'n mynd i drio dylunio ystafelloedd tai a chartrefi pobl. Mae Carwyn a Mandy yn bobl gyfeillgar iawn a dwi'n siŵr byddwn ni ffrindiau - ond fel dylunwyr - a fydd gormod ohonom ni?"

Mae Mandy yn ei helfen wrth ddylunio cartrefi ac mae hi'n gweithio dros Gymru gyfan yn ogystal â gogledd orllewin Lloegr. Meddai Mandy: "Dwi wrth fy modd efo defnydd - cyrtens, *blinds a* clustogau. Ond dwi ddim yn hoffi peintio - sy'n dipyn o wendid!"

Pren yw'r cyfrwng mae Carwyn yn defnyddio i gynllunio ac adeiladu - ac mae clustogau a chyrtens yn bell iawn o'i arbenigedd!

"Fi jysd yn hoffi neud pob peth gyda phren. Dwi ddim yn edrych ymlaen at ddewis lliw 'stafell wely neu liw clustog. Sdim cliw da fi beth sy'n mynd efo beth!"

Ond gyda sgiliau amrywiol y tri, maen nhw’n siŵr o allu gwneud gwyrthiau gyda’r hen dai sydd angen bach o faldod.

Yn y rhaglen gyntaf, cwrddwn â’r teulu Morris - Euros a Rhian a’u mab Ifan -  sydd yn byw ar y fferm deuluol yn Llanfihangel-ar-arth.

Meddai Euros: “Ni yw’r trydedd cenhedlaeth sydd wedi byw yma a wnaethom ni symud mewn tri mis yn ôl ar ôl prynu’r tŷ o’r teulu a ‘da ni’n edrych ymlaen at adnewyddu’r ystafelloedd.”

Mae’r teulu Morris eisiau newid yr ystafell amlbwrpas i greu mwy o ofod, adnewyddu’r ystafell ymolchi hen ffasiwn i greu rhywle sy’n fwy ymarferol iddyn nhw fel teulu a man chwarae i Ifan yn yr ardd.

Cyn i’r tîm ddechrau, mae Euros yn mynnu nad yw e eisiau rhywbeth rhy fodern. “Cofia, hen dŷ fferm yw e,” meddai. “Felly dim lliwiau llachar – ‘da ni eisiau cadw pethau’n naturiol.”

Felly, sut ymateb cafodd Gwyn, Mandy a Carwyn i’w gwaith adnewyddu creadigol gan y teulu Morris? Gwyliwch **Hen Dŷ Newydd** i weld wynebau Euros, Rhian ac Ifan wrth iddynt weld eu hen dŷ yn troi yn dŷ newydd.

Dros yr wythnosau nesaf bydd **Hen Dŷ Newydd** yn ymweld â thai yn ardal Betws-yn-Rhos, Caernarfon, Aberhonddu, Llandegfan a Chaerdydd.

**Hen Dŷ Newydd**
**Nos Sul 27 Mehefin 8.00, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

03.10.2020

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Series gives new lease of life to old homes

There's no place like home but sometimes it's good to have a change too – and a brand new series on S4C brings the two together in **Hen Dŷ Newydd** (A New Old Home).

In this series, six families from all over Wales have asked for help to transform and improve their living space with the help of three creative designers, Gwyn Eiddior, a set designer for film and television productions; interior designer Mandy Watkins and award-winning creative carpenter Carwyn Lloyd Jones.

From renovating an *art deco* kitchen to creating a refuge in an attic, **Hen Dŷ Newydd** will celebrate the talents of the three creative designers as they transform small spaces with big potential.

The aim is to inspire individuals and families to live, work and play in a completely new way within their homes. These will be personal projects to improve the experience of living within the four walls.

The three designers will pool all their skills into a different home every week. They will each be responsible for renovating a room or a space – a kitchen, lounge, bedroom or a space in the garden.

Gwyn, Mandy and Carwyn will each have a different budget for each room - £1,000, £2,500 and £5,000. But they will have to work as a team in order to get the most out of each designer's different skills.

Gwyn said: "I usually work as a designer on television, film and theatre productions or outside events and festivals. This time I'm going to be working on people's homes. Carwyn and Mandy are lovely people and I'm sure we will be friends – but as designers – are there too many of us?"

Mandy is in her element designing homes and she works all over Wales and north west England. Mandy said: "I love fabrics – curtains, blinds, cushions. But I don't like painting – which is a bit of a weakness!"

Wood is the medium which Carwyn uses to plan and build – and cushions and curtains are way beyond his area of expertise!

"I just like making things out of wood," said Carwyn. "I'm not looking forward to choosing a colour for a room or cushions. I haven't got a clue about what goes with what!"

But with the three designers’ variety of skills, they will certainly be able to perform miracles on some old houses which need a bit of love and attention.

In the first programme we meet the Morris family – Euros and Rhian and their son Ifan – who live on their family farm in Llanfihangel-ar-arth.

Euros said: “We are the third generation to have lived here. We moved in three months ago after buying the house from the family and we are looking forward to renovating the rooms.”

The Morris family want to create more storage space in their utility room, transform the old-fashioned bathroom into something more suitable for a family and a play area for Ifan in the garden.

Before the team begins, Euros makes it clear that he doesn’t want anything too modern. “Remember, this is an old farmhouse,” he says, “so we don’t want bright colours, we want to keep it natural.”

So, what reaction will Gwyn, Mandy and Carwyn have to their renovations from the Morris family? Watch **Hen Dŷ Newydd** to see Euros, Rhian and Ifan’s faces as they see their old house be transformed into a new house.

Over the next weeks **Hen Dŷ Newydd** will be visiting homes in Betws-yn-Rhos, Caernarfon, Brecon, Llandegfan and Cardiff.

**Hen Dŷ Newydd**
**Sunday 27 June 8.00, S4C**
**English subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**